

## Asesiad HMI ar gyfer Heddlu Gwent

### Cyflwyniad

Dyma ail asesiad HMIC o'r effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb sydd gan Heddlu Gwent wrth iddynt gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae PEEL (effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu) yn rhoi gwybodaeth ichi ynghylch sut mae'ch heddlu lleol yn perfformio mewn nifer o feysydd pwysig. Mae'n gwneud hyn mewn ffordd y gellir ei chymharu ar draws Cymru a Lloegr, a blwyddyn ar flwyddyn fel ei gilydd.

### Datganiad ar ddyfarniadau piler

- Mae'r graddau mae Heddlu Gwent yn **effeithiol** wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu yn **dda**.
- Mae'r graddau mae Heddlu Gwent yn **effeithlon** wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu yn **dda**.
- Mae'r graddau mae Heddlu Gwent yn **gyfreithlon** wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu yn **dda**.

Eleni, am y tro cyntaf, rydym wedi asesu arweinyddiaeth ar draws y llu. Mae'r asesiad wedi arwain at ddyfarniad naratif yn hytrach na graddedig, a grynhöir isod.

Darllenwch ragor ynghylch fy asesiad o berfformiad Heddlu Gwent eleni, gan gynnwys digwyddiadau arwyddocaol a lle hoffwn weld gwelliannau flwyddyn nesaf.

### Sylwadau HMI

Hoffwn ganmol Heddlu Gwent am y cynnydd ardderchog mae wedi'i wneud yn 2015. Mae'r llu wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau asesiad PEEL llynedd ac rwyf yn fodlon iawn ar ei berfformiad o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu.

Mae'r cyflwyniad o fodel gweithredu newydd wedi rhyddhau mwy o swyddogion i rolau plismona ar y rheng flaen, tra'n galluogi'r llu i wneud arbedion sydd eu hangen ynghylch effeithlonrwydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Heddlu Gwent wedi datblygu a chyflwyno rhaglen eang o newid, wedi'i chefnogi gan gynllun ariannol effeithiol. Mae arweinyddiaeth gref, glir yn y llu a gweithlu sydd wedi'i ymgysylltu'n llawn, o fewn amserlenni tyn, wedi cyflawni gwelliannau diriaethol o ran

effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb y gwasanaeth mae'r llu'n ei ddarparu i'r cyhoedd erbyn hyn.

Mae'r llu'n dda o ran nodi dioddefwyr mynych a hyglwyf, gan asesu risg a chefnogi dioddefwyr. Wrth ddelio â'r cyhoedd, mae staff yn ceisio deall a delio ag anghenion unigolion er mwyn amddiffyn pobl hyglwyf rhag niwed.

Gwnaed argraff fawr arnaf gan y ffordd mae'r llu'n ymgysylltu â phobl Gwent, yn ddefnyddio ystod eang o dulliau. Mae wedi cyflwyno system reoli cymdogaeth sy'n ei helpu i ddeall anghenion cymunedau yn yr ardal.

## **Disgrifiad o ardal y llu**

Mae Heddlu Gwent yn darparu gwasanaethau plismona i sir Gwent. Er bod rhai ardaloedd yn fwy cefnog, mae gan Went lefel uchel o dlodi. Mae oddeutu 0.6 miliwn o bobl yn byw yn bennaf yn y canolfannau trefol sy'n cynnwys dinas Casnewydd, a threfi Glyn Ebwy, Trefynwy a Chwmbbran. Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr y brifysgol a'r niferoedd mawr iawn sy'n ymweld â'r ardal neu'n teithio trwy'r sir bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafniadaeth yn cynnwys porthladd môr.

Mae'r gyfran o ardaloedd yng Ngwent y rhagwelir y byddant yn cyflwyno her fawr iawn i'r heddlu'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae amddifadedd cymdeithasol neu grynhoad o safleoedd masnachol (gan gynnwys safleoedd trwyddedig), yn nodweddiadol o'r rhain a mewn rhai achosion mae'r ddau'n bresennol.

## **Trefniadau gweithio**

Mae gan y llu nifer o drefniadau gweithio cydweithredol trwy'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan, gan gynnwys galluogrwydd cymorth arfau tanio ar y cyd ac Uned Eithafiaeth a Gwrth-Derfysgaeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir yn darparu gwasanaethau TGCh i'r llu a dau awdurdod lleol.

## **Effeithiolrwydd**

Yn ein harolygiad effeithiolrwydd, fe wnaethom ddyfarnu bod Heddlu Gwent yn dda o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Â chymorth cryf gan bartneriaid, mae'r llu'n effeithiol o ran atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwnaed cynnydd da ers canfod bod ymchwiliadau i droseddau angen gwelliant yn 2014; erbyn hyn mae'r llu'n rheoli ymchwiliadau'n effeithiol. Gwnaed gwelliannau tebyg yn y ffordd mae'r llu'n amddiffyn pobl hyglwyf rhag niwed. Erbyn hyn maent yn cael eu nodi'n gyflymach ac yn derbyn cymorth gwell. Hefyd mae'r llu'n deall ac yn ymateb i droseddu difrifol a chyfundrefnol yn dda. Dyma'r flwyddyn gyntaf mae HMIC wedi graddoli lluoedd ar eu heffeithiolrwydd cyffredinol felly nid yw'n bosibl cymharu eu heffeithiolrwydd flwyddyn ar flwyddyn.

## **Effeithlonrwydd**

Mae Heddlu Gwent yn barod iawn i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Trwy reolaeth ariannol gadarn ac ymrwymiad i welliant parhaus, mae wedi lleihau ei wariant yn llwyddiannus dros y cyfnod adolygu gwariant blaenorol, wedi gwella ei ddealltwriaeth o alw, wedi cyflwyno model gweithredu newydd a mae'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer heriau ariannol y dyfodol. Yn yr arolygiad gwerth am arian llynedd, a oedd yn ystyried sut oedd lluoedd wedi cwrdd â her y cyfnod adolygu gwariant blaenorol, dyfarnwyd bod Heddlu Gwent yn dda

## **Cyfreithlondeb**

Mae Heddlu Gwent yn gwneud ymdrechion clir i ddatblygu a chynnal amgylchedd gweithio moesegol ar draws y llu. Mae gan y llu ddealltwriaeth dda o'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ac yn defnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu â'r bobl yn ei gymdogaethau lleol, i geisio eu barnau a darparu gwybodaeth gyfredol iddynt.

Mae Heddlu Gwent yn cydymffurfio â'r cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, ac mae ei ddefnydd o Taser yn deg a phriodol.

Dyma'r tro cyntaf mae HMIC wedi graddoli lluoedd ar eu cyfreithlonrwydd, felly nid yw'n bosibl cymharu ar sylfaen flwyddyn ar flwyddyn.

## **Crynodeb arweinyddiaeth**

Arweinir Heddlu Gwent yn dda. Mae'r llu wedi cyfathrebu ei gynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn glir, a gysylltir â'i fodel gweithredu newydd.

Nid yw'r llu wedi datblygu dealltwriaeth eang eto o gapasiti a galluogrwydd ei arweinyddiaeth ar bob lefel. Mae ganddo brosesau cyfyng yn eu lle i ddatblygu unigolion talentog o fewn y sefydliad.

## **Mewnwelediadau o arolygiadau eraill**

Mae HMIC yn ymgymryd ag arolygiadau eraill heblaw am y rhaglen PEEL. Ers yr asesiad PEEL diwethaf mae naw adroddiad wedi'u cyhoeddi ar arolygiadau a oedd yn cynnwys Heddlu Gwent. Gellir gweld rhagor o fanylion ar rai o'r arolygiadau hyn o dan yr adran "arolygiadau eraill".

## **Edrych ymlaen at PEEL 2016**

Yn y flwyddyn sydd o'n blaen, bydd gennyf ddiddordeb i weld sut fydd y llu'n ymateb i'r asesiad hwn, a'r meysydd ar gyfer gwella mae HMIC wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd gennyf ddiddordeb arbennig i weld:

- sut mae'r llŷn asesu llwyddiant model gweithredu newydd y llŷ o ran diwallu anghenion y cyhoedd;
- parhau i wella Canolbwynt Plant Coll Gwent. Mae hon yn uned aml-asiantaeth, yn datrys problemau mewn cysylltiad â phlant sy'n mynd ar goll, megis cyfathrebu annigonol rhwng asiantaethau a diffyg dealltwriaeth ynghylch pam mae plant yn rhedeg i ffwrdd; a
- datblygu 'proffiliau problem', i helpu i ddeall yn llawn i ba raddau mae'r bobl fwyaf hygryw yn cael eu heffeithio gan bob maes o fusnes yr heddlu.

Ym Mai 2016, fel y mwyafrif o luoedd yng Nghymru a Lloegr, bydd y llŷn gweld yr ail etholiadau ar gyfer ei gomisiynydd heddlu a throseddu.